# Strategaeth Tlodi Plant Adroddiad Cynnydd 2013

Comisiynydd Plant Cymru
Children's Commissioner for Wales

**Mae cyfres o gyfreithiau, gan gynnwys Deddf Safonau Gofal 2000 a Deddf Comisiynydd Plant Cymru 2001, sy'n esbonio rôl a chyfrifoldebau'r Comisiynydd.**

Rydym am i Gymru fod yn wlad lle caiff plant a phobl ifanc eu parchu a'u gwerthfawrogi, lle maent yn cael gwrandawiad a chefnogaeth i fyw bywydau diogel, hapus. Mae tîm o bobl sy'n gweithio gyda'r Comisiynydd Plant yn Abertawe a Bae Colwyn – i'w helpu i wneud y pethau yma:

— **cefnogi** plant a phobl ifanc i gael gwybod am hawliau plant

— **gwrando** ar blant a phobl ifanc i gael gwybod beth sy'n bwysig iddyn nhw

— **cynghori** plant, pobl ifanc a'r rhai sy'n gofalu amdanyn nhw os byddan nhw'n teimlo eu bod nhw'n methu troi at neb arall gyda'u problemau

— **dylanwadu** ar y llywodraeth a sefydliadau eraill sy'n dweud eu bod nhw'n mynd i wneud gwahaniaeth i fywydau plant, a gwneud yn siŵr eu bod nhw'n cadw eu haddewidion i blant a phobl ifanc

— **codi llais** dros blant a phobl ifanc yn genedlaethol ar faterion pwysig – bod yn bencampwr plant Cymru.

Gallwch ddod o hyd i gopïau o'n holl adroddiadau a'u lawrlwytho ar ein gwefan: www.complantcymru.org.uk

**Mae'r adroddiad hwn ar gael mewn fformatau eraill drwy roi galwad ffôn i ni ar 01792 765600 neu anfon e-bost atom ni i post@complantcymru.org.uk**

04 Rhagair gan Keith Towler
06 Tlodi plant yng Nghymru – diweddariad
08 Cynllun Peilot y Llysgenhadon Cymunedol – diweddariad
12 Materion Cydraddoldeb
14 Cyflawni tri ymrwymiad allweddol Comisiynydd Plant Cymru o ran tlodi plant – cynnydd
26 Gwybodaeth bellach
27 Troednodiadau

# Rhagair

## Yn y deuddeg mis ers i mi gyhoeddi fy Strategaeth Tlodi Plant mae'r heriau economaidd sy'n wynebu teuluoedd wrth fagu plant a phobl ifanc yng Nghymru wedi cynyddu mwy fyth.

Mae effaith yr economi ar gyfleoedd yn y farchnad lafur a lefelau cyflogau yn golygu bod mwy a mwy o deuluoedd sy'n gweithio yn cael trafferth talu am gostau byw. Ar yr un pryd mae diwygiadau lles Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn ergyd arbennig o galed i deuluoedd sydd â phlant dibynnol. Nid mater o deuluoedd yn methu prynu'r sgidiau ymarfer diweddaraf i'w plant yw hyn; mater o deuluoedd yn gorfod gwneud penderfyniadau anodd ynghylch sut mae darparu ar gyfer eu plant o wythnos i wythnos. Mae ffigurau diweddar yn awgrymu bod un o bob pum person sy'n cael y beilïod yn curo wrth y drws yn rhieni sy'n gweithio.

Canlyniad tlodi teuluoedd yw tlodi plant. Serch hynny, mae dull tlodi plant o fynd i'r afael â'r broblem hon yn sylfaenol wahanol i'r dull tlodi teulu. Mae dull tlodi plant yn rhoi'r plentyn yng nghanol yr holl fesurau polisi ac yn cydnabod y plentyn fel deilydd hawliau, gyda hawliau sy'n estyn y tu hwnt i'r teulu. O'i fframio mewn cyd-destun hawliau plant, yn unol â Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, mae gwahaniaethau dull tlodi plant yn dod yn amlwg. Wrth i niferoedd cynyddol o deuluoedd yng Nghymru wynebu caledi ariannol, felly hefyd mae niferoedd cynyddol o blant a phobl ifanc mewn perygl o syrthio tu ôl i'w cyfoedion o ran cyfleoedd i wireddu eu hawliau a'u potensial.

Rwyf wedi clywed gan y plant a'r bobl ifanc sy'n gweithredu fel Llysgenhadon Cymunedol cyntaf i fi yng Nghymru. Mae eu hymrwymiad i'r cynllun ac ansawdd a dyfnder y dystiolaeth maen nhw wedi'i chasglu i fi wedi creu cryn argraff arna i. Mae'r wybodaeth maen nhw wedi'i darparu am beth sy'n bwysig i'r plant a'r bobl ifanc yn eu cymunedau yn dangos bod plant a phobl ifanc yn ymwybodol o heriau cydlyniant cymunedol, ac yn cael hyd i ffordd drwyddynt yn ddyddiol.

Pan gyhoeddais i fy adroddiad blynyddol cyntaf fel Comisiynydd Plant Cymru yn 2008, roeddwn i'n eglur nad oedd hi'n dderbyniol, yn fy marn i, bod un o bob pedwar plentyn yng Nghymru yn byw mewn tlodi. Bum mlynedd ymlaen, er gwaethaf ymrwymiadau polisi sylweddol, rwyf wedi fy siomi'n aruthrol bod y ffigurau diweddaraf yn dangos sefyllfa sydd hyd yn oed yn waeth, gydag un o bob tri phlentyn yng Nghymru'n byw ar aelwyd dlawd. Nawr, fwy nag erioed, mae angen i ni flaenoriaethu gweithredu i sicrhau hawliau plant a phobl ifanc sy'n tyfu i fyny mewn tlodi.

**Keith Towler,**
**Comisiynydd Plant Cymru**

# Tlodi Plant yng Nghymru – Diweddariad

**Mae'r ffigurau diweddaraf sydd wedi'u rhyddhau yn dangos bod cyfradd tlodi plant yng Nghymru (33%) yn dod yn ail dim ond i'r gyfradd yn Llundain (36%). Gellir cymharu hyn â'r rhanbarthau sydd â'r cyfraddau tlodi isaf, sydd ond ychydig uwchben 20%, yn cynnwys yr Alban (22%) a De-ddwyrain Lloegr (21%).**

Bydd diwygiadau lles Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn cael effeithiau pellgyrhaeddol ar y rhai sy'n hawlio budd-daliadau, yn arbennig teuluoedd nad ydynt yn gweithio sydd â phlant, ac at ei gilydd, unig rieni sydd ddim yn gweithio yw un o'r grwpiau fydd yn colli'r symiau mwyaf o'u hincwm. Mae disgwyl i'r cap cenedlaethol ar fudd-daliadau ar gyfer aelwydydd di-waith (oedran gwaith), yng nghyswllt y symudiad at drefn y Credyd Cynhwysol, gyfyngu ar fudd-daliadau i ryw 1,500 o aelwydydd yng Nghymru, sy'n cynnwys 6,000 o blant.

Yn ôl tystiolaeth a gyhoeddwyd fis diwethaf, o ganlyniad i dlodi cynyddol pobl sydd mewn gwaith yng Nghymru, mae mwy o oedolion oedran gwaith a phlant bellach mewn teuluoedd incwm isel sy'n gweithio (285,000 ar gyfartaledd yn y tair blynedd hyd at 2010/11) nag mewn teuluoedd incwm isel di-waith (275,000). Mae'r un cyhoeddiad yn adrodd am risg lawer uwch o dlodi yn achos teuluoedd sy'n gweithio'n rhannol, ac mae'n awgrymu mai'r rheswm am hynny yw'r lefelau cyflog is sy'n gysylltiedig â gwaith rhan amser.

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru 'Strategaeth Tlodi Plant i Gymru: Dangosyddion Gwaelodlin' ym mis Mawrth eleni. Mae'r adroddiad hwn yn darparu gwerthusiad o Strategaeth Tlodi Plant Cymru, gan ddarparu data gwaelodlin ar gyfer 2005 a chymharu â data'r flwyddyn ddiweddaraf ar draws 23 o ddangosyddion sy'n gysylltiedig â thlodi incwm, addysg, tai a iechyd. Ni cheir tystiolaeth o gynnydd ond yng nghyswllt 6 o'r 23 dangosydd sy'n derbyn sylw yn yr adroddiad.

Sefydlodd Llywodraeth Cymru Grŵp Gorchwyl a Gorffen Gweinidogol ar Ddiwygio Lles, ac mae'r Comisiynydd Plant wedi mynychu nifer o'r cyfarfodydd a gynullwyd gan y grŵp hwn. Bu'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen Gweinidogol hefyd yn comisiynu rhaglen ymchwil tri cham i asesu effaith y diwygiadau lles yng Nghymru. Mae'r dadansoddiad yn awgrymu y bydd yr aelwydydd hynny sy'n cynnwys plant ymhlith y rhai fydd yn dioddef yr ergyd drymaf yn sgîl diwygiadau lles Llywodraeth y DU.

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru 'Creu Cymunedau Cryf: Symud Ymlaen â'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi' ym mis Gorffennaf 2013. Mae'r Comisiynydd Plant wedi nodi bod pwyslais cryfach ar faterion plant a phobl ifanc yn y cynllun gweithredu hwn nag yng nghyhoeddiad 2012 'Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi'. Mae wedi croesawu'r sylw a roddwyd i Cymunedau yn Gyntaf, y blynyddoedd cynnar, gofal plant ac addysg. Fodd bynnag, mae'n dal i bryderu nad yw cynnwys tlodi plant mewn cynllun gweithredu ar dlodi i bob oed yn addas ar gyfer camau gweithredu sydd wedi'u seilio'n gadarn mewn fframwaith o hawliau plant, yn unol â CCUHP. Ni cheir cyfeiriad uniongyrchol at CCUHP yng Nghynllun Gweithredu 2013.

# Cynllun Peilot y Llysgenhadon Cymunedol – Diweddariad

**Yn ei Strategaeth Tlodi Plant nododd y Comisiynydd Plant ei fwriad i beilota cynllun Llysgenhadon Cymunedol. Gan adeiladu ar gynllun Llysgenhadon Ysgol llwyddiannus y Comisiynydd Plant, bwriad y cynllun Llysgenhadon Cymunedol yw gwneud y canlynol:**

- **targedu plant a phobl ifanc sy'n byw mewn ardaloedd cymdeithasol ddifreintiedig a/neu sy'n dod o grwpiau o dan anfantais;**
- **cynnig cyfleoedd i ystod oedran ehangach na'r cynllun Llysgenhadon Ysgol cyfredol;**
- **cynnig cyfleoedd i blant a phobl ifanc a allai gael trafferth ymgysylltu trwy leoliadau addysg.**

**Fel yn achos y Cynllun Llysgenhadon Ysgol sefydledig, mae disgwyl i'r plant a'r bobl ifanc sy'n dod yn Llysgenhadon Cymunedol wneud y canlynol:**

1. **Dweud wrth eraill am CCUHP.**
2. **Dweud wrth eraill am Gomisiynydd Plant Cymru.**
3. **Bod yn llais i'r Comisiynydd Plant ar lawr gwlad i roi gwybod iddo am y pethau cadarnhaol sy'n digwydd yn eu cymunedau fel ei fod e'n gallu rhannu nhw gydag eraill, a dweud wrtho hefyd am unrhyw beth maen nhw'n teimlo bod angen help arnyn nhw i'w wella yn eu hardal.**

Bellach mae'r cynllun wedi cael ei beilota mewn tair cymuned yn ne Cymru: Glyncoch (RhCT), Adamsdown (Caerdydd) a thrwy Brosiect Pobl Ifanc Sengl Ddigartref Abertawe. Mae Film Agency Wales wedi comisiynu gwaith gyda'r tri safle peilot yn ne Cymru i ddarparu gweithdai techneg ffilmio ac i ddarparu deunydd ar gyfer adnodd DVD a fydd yn cefnogi'r broses o estyn y cynllun yn y dyfodol.

Mae dau grŵp peilot arall yng ngogledd Cymru yn dechrau gweithio yn yr hydref.

Mae'r Comisiynydd Plant wrthi ar hyn o bryd yn cynyddu ymwybyddiaeth o'r cynllun Llysgenhadon Cymunedol, a bu diddordeb eisoes gan ardaloedd newydd a hoffai fod yn rhan o'r broses o estyn y cynllun. Bydd penderfyniad terfynol yn cael ei wneud ar y broses o estyn y cynllun yn raddol o fis Mawrth 2014 unwaith mae pob un o'r ardaloedd peilot wedi cyflwyno adroddiad.

Mae'r Comisiynydd Plant yn ddiolchgar i'r plant a'r bobl ifanc sydd wedi gweithredu fel Llysgenhadon Cymunedol cyntaf iddo, ac mae eu hymrwymiad nhw a'r prosiectau fu yn eu cefnogi i'r cynllun wedi creu argraff arno. Mae'r wybodaeth maen nhw wedi'i darparu am y pethau sy'n bwysig i blant a phobl ifanc yn eu cymunedau yn dangos bod plant a phobl ifanc yn ymwybodol o heriau cydlyniant cymunedol ac yn cael hyd i ffordd drwyddynt yn ddyddiol.

# Adroddiad Llysgenhadon Cymunedol

Daeth grwpiau Adamsdown ac Abertawe i swyddfa'r Comisiynydd Plant, lle buon nhw'n cwrdd â'r Comisiynydd ac yn rhannu cyflwyniadau oedd yn nodi'r materion roedden nhw wedi darganfod eu bod yn bwysig i'r plant a'r bobl ifanc yn eu cymunedau, gan roi adborth ar yr hyn sy'n angenrheidiol i gefnogi'r cynllun i symud ymlaen. Bydd grwpiau peilot gogledd Cymru a grŵp Glyncoch yn adrodd yn ôl ym mis Mawrth 2014.

Defnyddiodd y Llysgenhadon Cymunedol nifer o ddulliau gwahanol i gasglu barn plant a phobl ifanc yn eu cymunedau. Fe wnaethon nhw benderfynu ar y dulliau roedden nhw am eu defnyddio, oedd yn cynnwys:

- **Cyswllt anffurfiol/siarad â phlant a phobl ifanc/ ymchwil cyfoedion.**
- **Arsylwi.**
- **Arolwg am broblemau yn y gymuned a sut roedd pobl yn meddwl y dylid eu goresgyn.**
- **Gwirfoddoli mewn gwahanol wasanaethau/ brosiectau, gwrando, a chynnal gweithdai gyda ffocws.**

**Dyma beth ddywedodd y Llysgenhadon Cymunedol o Adamsdown ac Abertawe wrth y Comisiynydd sy'n bwysig i blant a phobl ifanc yn eu cymunedau:**

- **Problemau cysylltiedig â defnyddio cyffuriau yn y gymuned:** Mae plant a phobl ifanc yn ymwybodol iawn o ymddygiad oedolion yng nghyswllt delio mewn cyffuriau a defnyddio cyffuriau, ac mae hynny'n gwneud iddyn nhw deimlo'n anniogel. Fe sonion nhw am blant yn gallu cael gafael ar gyffuriau'n hawdd, am siopau'n gwerthu alcohol a thybaco i blant a phobl ifanc o dan oed, ac am deimlo'n ofnus oherwydd y defnydd o gyffuriau a'r ymddygiad cysylltiedig. Maen nhw hefyd yn teimlo bod gan eu cymuned enw drwg oherwydd y defnydd o gyffuriau.

- **Hiliaeth:** Mae hiliaeth yn cael effaith fawr ar sut mae'r gymuned yn gweithredu, a sut mae plant a phobl ifanc yn teimlo. Mae agweddau ac ymddygiad hiliol yn gwneud iddyn nhw deimlo'n anniogel. Roedd teimlad hefyd fod angen mwy o gyfleoedd i bobl ifanc o wahanol gefndiroedd ethnig fwynhau amser cymdeithasol a gweithgareddau gyda'i gilydd. Soniodd y ddau grŵp am hiliaeth, ond roedd yn un o'r prif faterion yn adroddiad Adamsdown.

- **Gwahaniaethu ar sail Oedran:** Soniodd pobl ifanc am ddiffyg parch at bobl ifanc gan bobl hŷn, am gamwahaniaethu oherwydd y canfyddiadau o bobl ifanc fel rhai oedd yn codi ofn ar eraill ac yn ymwneud â gangiau, a theimlai rhai pobl ifanc eu bod yn cael eu herlid gan yr heddlu.

- **Gwahaniaethu ar sail Anabledd:** Soniodd pobl ifanc am ddiffyg cyfleoedd o ran swyddi, hyfforddiant a chefnogaeth i bobl ifanc ag anableddau dysgu. Roedd pobl ifanc anabl hefyd yn pryderu am ddiffyg gwasanaethau a phroblemau cysylltiedig â'r amgylchedd adeiledig (er enghraifft palmentydd), sy'n golygu ei fod yn anodd iddyn nhw fynd o gwmpas y ddinas.

- **Rhywbeth i'w wneud:** Dywedodd pobl ifanc fod angen mwy o opsiynau arnyn nhw o ran llefydd i fynd, pethau i'w gwneud a gwell gwybodaeth am beth sy'n digwydd.

- **Mynediad uniongyrchol at wleidyddion:** Mae pobl ifanc eisiau gallu rhoi eu barn i'r llywodraeth wyneb yn wyneb – maen nhw eisiau mwy o gyfleoedd i wneud hynny, yn hytrach na bwydo'u barn i mewn trwy sefydliad.

- **Agweddau'r Ganolfan Waith:** Soniodd pobl ifanc am y gwasanaeth cyflogaeth fel system ddryslyd, gan adrodd am ddiffyg gwybodaeth ddealladwy a theimlo stigma oherwydd eu bod yn gorfod dibynnu ar y system. Dywedodd pobl ifanc fod angen mentor canolfan waith arnyn nhw (yn enwedig ar gyfer pobl ifanc ag anableddau dysgu), fe fuon nhw'n siarad am driniaeth wael/diffyg parch at bobl ifanc gan staff y gwasanaeth cyflogaeth, ac fe ddwedson nhw fod angen gwell ystod o gyfleoedd fel gwirfoddoli ac addysg.

- **Gwasanaethau Cymdeithasol:** Dywedodd pobl ifanc sy'n cael eu cefnogi gan y gwasanaethau cymdeithasol, gan gynnwys rhai sy'n gadael gofal, fod angen i bobl ifanc wybod bod y gweithiwr cymdeithasol ar eu hochr nhw; mae angen iddyn nhw wybod y bydd y gweithiwr cymdeithasol yn cyfathrebu'n uniongyrchol gyda nhw; dydyn nhw ddim yn gwybod beth i'w wneud os oes problem gyda gofalwyr neu weithiwr cymdeithasol; mae angen gwell mynediad at gefnogaeth arnyn nhw, parch i gael eu clywed a mynediad at eiriolaeth. Mae angen cefnogaeth y tu allan i oriau arnyn nhw.

- **Tai:** Mae angen mwy o help ar bobl ifanc i ddeall y system dyrannu tai a'r ffyrdd gorau o gael llety parhaol.

- **Comisiynydd Plant Cymru:** dyw nifer fawr o bobl ifanc ddim yn gwybod am Gomisiynydd Plant Cymru.

**Ymrwymiad y Comisiynydd Plant i'r Llysgenhadon Cymunedol: bydd y Comisiynydd yn rhannu'r materion maen nhw wedi'u codi fel rhai sy'n bwysig i blant a phobl ifanc yn eu cymunedau gyda Llywodraeth Cymru ac yn cynnwys y materion hyn yn ei adroddiad ar y Cynnydd o ran Tlodi Plant 2013 a'r Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2012-2013 a gyhoeddir yn 2014.**

# Materion Cydraddoldeb

**Yn gynharach eleni cynhaliodd Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol Cynulliad Cenedlaethol Cymru ymchwiliad i ddyfodol cydraddoldeb a hawliau dynol yng Nghymru. Cyflwynodd Comisiynydd Plant Cymru dystiolaeth i'r ymchwiliad a chyflwyno ei safbwynt y dylid rhoi pwerau i'r Cynulliad Cenedlaethol adeiladu ar ddarpariaethau Deddf Cydraddoldeb 2010. Gallai hyn gynnwys gweithredu rhannau o'r Ddeddf nad yw'n fwriad gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig eu rhoi ar waith ar unwaith, ac estyn eu cwmpas i grwpiau penodol.**

Mae cefndir sosio-economaidd pobl yn dal yn factor allweddol wrth bennu eu cyfleoedd mewn bywyd. Mae Erthygl 29 o CCUHP yn nodi bod rhaid i addysg ddatblygu personoliaeth, doniau a galluoedd pob plentyn yn llawn, ond mae addysg yn darparu enghraifft glir o effaith cefndir sosio-economaidd plentyn ar ganlyniadau addysgol. Mae ymchwil yn awgrymu bod ffactorau sosio-economaidd yn well rhagfynegydd o gyrhaeddiad addysgol na gallu, gyda phlant sy'n llai galluog yn academaidd ond yn well eu byd yn mynd heibio i'r plant galluog tlotach erbyn eu bod yn 6 oed. Mae data a gyhoeddwyd y llynedd gan Lywodraeth Cymru yn dangos bod perfformiad disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim yn is na'u cymheiriaid anghymwys ym mhob cyfnod allweddol ac ym mhob mesur perfformiad ym myd addysg.

Ar yr un pryd mae perthynas glir rhwng anfantais sosio-economaidd a nodweddion a amddiffynnir. Yn ôl erthygl 27 o CCUHP: 'Mae Partïon Gwladol yn cydnabod hawl pob plentyn i safon byw sy'n ddigonol ar gyfer datblygiad corfforol, meddyliol, ysbrydol, moesol a chymdeithasol plentyn' heb gamwahaniaethu (Erthygl 2 o CCUHP). Fodd bynnag, mae plant anabl, er enghraifft, mewn mwy o berygl na'u cyfoedion o dyfu i fyny mewn tlodi a bydd y profiad hwnnw o dlodi yn cael effaith ar eu cyfleoedd mewn bywyd yn y dyfodol o ran addysg a chyflogaeth.

Cynigiwyd y ddyletswydd sosio-economaidd gyda'r bwriad o 'egluro bod trechu anfantais sosio-economaidd a chau'r bwlch canlyniadau ar gyfer pobl o wahanol gefndiroedd yn un o swyddogaethau craidd gwasanaethau cyhoeddus'. Mae awdurdodau lleol a chyrff cyhoeddus eraill a ragnodwyd yng Nghymru eisoes yn destun dyletswydd i baratoi a chyhoeddi strategaeth ar gyfer cyfrannu at ddileu tlodi plant yng Nghymru o dan Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010. Byddai cyflwyno dyletswydd sosio-economaidd yng Nghymru yn cryfhau gweithrediad y bwriad polisi hwn a'r ymrwymiad cyffredinol i les a geir yn y Rhaglen Lywodraethu. Yn fwy arwyddocaol byddai'n cyfrannu at sbarduno ymdrechion i leihau effaith tlodi plant ac i wella cydraddoldeb canlyniadau i blant a phobl ifanc yng Nghymru.

# Cyflawni tri Ymrwymiad Allweddol Comisiynydd Plant Cymru o ran Cynnydd ym maes Tlodi Plant

**Er nad yw Comisiynydd Plant Cymru yn destun y ddyletswydd a geir yn y Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010, fe benderfynodd gyhoeddi ei Strategaeth Tlodi Plant ei hun er mwyn cyflwyno'r gwaith mae ei swyddfa'n ei wneud i gyfrannu at drechu tlodi plant yng Nghymru. Pan gyhoeddwyd y Strategaeth Tlodi Plant ym mis Hydref 2012, gwnaeth y Comisiynydd Plant dri ymrwymiad allweddol ynghylch tlodi plant:**

1. **Cyflawni'r camau gweithredu a nodwyd yn y Strategaeth Tlodi Plant a'u hadolygu'n flynyddol.**

2. **Parhau i godi llais ynghylch yr angen am ddull seiliedig ar hawliau o drechu tlodi plant yng Nghymru, a hybu hynny.**

3. **Targedu gwaith trwy swyddogaethau megis y rhaglenni Llysgenhadon, rhaglen See Me/Dyma Fi a'r rhaglen waith flynyddol ar ymdrin â materion cydraddoldebau sosio-economaidd i blant a phobl ifanc.**

**Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno'r cynnydd a wnaed yn erbyn y tri ymrwymiad allweddol hwn yn ystod blwyddyn gyntaf Strategaeth Tlodi Plant y Comisiynydd.**

## Cyflawni'r camau gweithredu a nodwyd yn Strategaeth Tlodi Plant y Comisiynydd a'u hadolygu yn flynyddol.

## Mae Strategaeth Tlodi Plant y Comisiynydd yn ystyried materion yn erbyn 7 Nod Craidd Llywodraeth Cymru ar gyfer pob plentyn a pherson ifanc.

## Nod 1: dechrau'n deg mewn bywyd

Mae'r Comisiynydd wedi croesawu'r ffaith bod Llywodraeth Cymru wedi buddsoddi mewn rhaglen o fentrau a luniwyd i ddarparu ymyrraeth gynnar a chefnogi teuluoedd mewn modd cyfannol. Mae cyfnodau arloesol y mentrau hyn bellach wedi'u cwblhau ac mae darpariaeth awdurdodau lleol ledled Cymru wedi symud ymlaen yn ystod y 12 mis diwethaf. Mae'n arwyddocaol bod pob un o'r rhaglenni hyn yn targedu plant agored i niwed a'u teuluoedd a bod system o werthuso parhaus ar waith. Wrth edrych ymlaen, mae'r Comisiynydd Plant am sicrhau bod ymyriadau sy'n canolbwyntio ar y teulu yn cynnwys ffocws cryf ar ddiwallu anghenion penodol, unigryw plant a phobl ifanc yn y teuluoedd hynny. Bydd canfyddiadau'r prosesau gwerthuso sydd ar waith yn cael eu hystyried wrth iddynt gael eu cyhoeddi.

Mae'r Comisiynydd Plant wedi cynnwys galwad ynghylch yr angen am ganllawiau i gynnal gweithrediad cymorth i rieni fel y nodwyd ym Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 yn ei Adroddiad Blynyddol diweddaraf a gyhoeddwyd yn gynharach y mis yma.

**Hybu arfer da – sicrhau bod plant sy'n byw mewn tlodi yn gwireddu eu hawl i gefnogaeth ar gyfer eu datblygiad heb gamwahaniaethu.**

Mae ymchwil yn dweud wrthym fod plant sydd â charcharor yn y teulu yn fwy tebygol o fyw mewn tlodi ac mewn mwy o berygl o gael canlyniadau emosiynol, cymdeithasol ac addysgol gwael. Mae angen gwaith i sicrhau bod y plant hyn, y mae eu hanghenion yn aml yn anweladwy i'r gwasanaethau prif ffrwd, yn gallu gwireddu eu hawliau heb gamwahaniaethu, yn unol ag Erthygl 2 o CCUHP.

**Carchar y Parc, Ymyriadau Teulu ac Invisible Walls Cymru:**
Aeth Comisiynydd Plant Cymru ar ymweliad â Charchar y Parc, lle bu'n cwrdd â thadau oedd yn y ddalfa ac yn cael gwybod am y gwaith arloesol oedd yn cael ei wneud yn y carchar a'r gymuned mewn partneriaeth â Barnardo's Cymru, awdurdodau lleol a phartneriaid eraill i gefnogi dynion yn eu rôl wrth fagu plant (Erthygl 18, CCUHP) a lleihau effaith eu carchariad ar eu plant. Mae ystod eang o ymyriadau'n cael eu darparu, yn cynnwys Uned Ymyriadau Teulu ar gyfer dynion sy'n ymroddedig i weithio ar eu rôl wrth fagu plant, Lolfa Ymyriadau Teulu ar gyfer ymweliadau a chyrsiau sy'n canolbwyntio ar y teulu, rhaglen magu plant, cwrs babanod, clwb gwaith cartref a chymorth teulu cyfannol wedi'i dargedu ar gyfer teuluoedd a atgyfeiriwyd yn y carchar ac allan yn y gymuned. Mae'r gefnogaeth yn cynnwys cwrs 6 wythnos 'Iaith a Chwarae – Rhif a Chwarae' a luniwyd i gefnogi rhieni/gofalwyr a'u babanod/plant 0-3 oed. Mae'n canolbwyntio ar gyfathrebu, iaith, llythrennedd a rhifedd, ac yn cefnogi plant i wireddu eu hawl i ddatblygiad (Erthygl 6, CCUHP).

**Carchar Abertawe, Cymorth i Deuluoedd:**
Bu Comisiynydd Plant Cymru yn ymweld â Charchar Abertawe i glywed am yr ystod o waith cymorth i deuluoedd sy'n cael ei ddarparu yno mewn partneriaeth â PACT. Bu'r Comisiynydd yn cwrdd â thadau oedd yn y ddalfa a'u partneriaid sydd wedi bod yn cymryd rhan yn y 'Grŵp Babanod'. Grŵp yw hwn ar gyfer tadau y cafodd eu babanod eu geni yn ystod eu carchariad neu'n fuan cyn hynny. Mae'r grŵp yn gyfle i famau a thadau ddysgu sgiliau newydd ac ymarfer rhai sydd ganddynt eisoes trwy storïau, amser caneuon a rhigymau, chwarae creadigol a thylino babanod. Mae hyn yn rhoi'r gefnogaeth angenrheidiol i rieni feithrin sgiliau ar gyfer magu eu plant (Erthygl 18, CCUHP) mewn modd sy'n cynnal eu datblygiad (Erthygl 6, CCUHP).

# Nod 2: mynediad i gymunedau addysg, hyfforddiant a dysgu

Cyhoeddodd Estyn dystiolaeth yn 2012 yng nghyswllt effeithiolrwydd ysgolion wrth drechu tlodi ac anfantais sy'n darparu achos cryf dros bwysigrwydd cynnal lles disgyblion er mwyn sicrhau cyrhaeddiad.

Mae'r Comisiynydd Plant wedi croesawu'r ffocws ar addysg a geir yn nogfen Llywodraeth Cymru 'Creu Cymunedau Cryf: Symud Ymlaen â'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu TlodiBuilding' (Gorffennaf 2013). Fodd bynnag, mae wedi'i siomi bod y camau gweithredu cysylltiedig â phlant oed ysgol yn canolbwyntio ar godi'r disgwyliadau o ran dysgwyr sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim trwy'r broses brofi, heb ystyried pwysigrwydd cynnal lles disgyblion fel modd i sicrhau canlyniadau addysgol i blant a phobl ifanc sydd o dan anfantais.

Ar yr un pryd mae Cronfa Arian Cyfatebol Grant Amddifadedd Disgyblion Cymunedau yn Gyntaf yn gynnig pwysig a ddylai helpu i gefnogi ysgolion bro ac adeiladu ar y gwaith da a wnaed eisoes gan bartneriaethau Cymunedau yn Gyntaf. Mae ailfodelu'r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf i greu rhaglen trechu tlodi sy'n canolbwyntio ar gymunedau yn gosod gwaith y Clystyrau Cymunedau yn Gyntaf mewn fframwaith cyflwyno a chanlyniadau sy'n cynnwys amcan cyflawni 'cymunedau sy'n dysgu'. Yn ei Strategaeth Tlodi Plant cyflwynodd y Comisiynydd Plant enghreifftiau o arfer da yn y gwaith roedd prosiectau Cymunedau yn Gyntaf yn ei wneud wrth gefnogi dysgu. Mae'n gobeithio y bydd y trefniadau newydd yn cefnogi gwaith pellach o'r math hwn.

Mae enghreifftiau o arfer rhagorol yng Nghymru lle mae dulliau ysgol gyfan a ffocws cymunedol clir yn darparu cyfleoedd addysgol o ansawdd da ar gyfer plant a phobl ifanc o aelwydydd incwm isel. Wrth i'r ddarpariaeth addysg yng Nghymru baratoi ar gyfer cyfnod o ddiwygio parhaus, mae'n hanfodol bod ffocws ar ddulliau profedig o gynnal lles disgyblion yn rhan annatod o'r diwygio ac yn cael statws sy'n gydradd â chyrhaeddiad.

**Hybu arfer da – sicrhau bod plant a phobl ifanc sy'n byw mewn tlodi yn gallu cyrchu eu hawl i gael addysg sy'n eu cefnogi i gyflawni eu potensial.**

Ymrwymodd y Comisiynydd Plant yn ei Strategaeth Tlodi Plant i ddefnyddio'i ddylanwad i hybu arfer da o ran lleihau'r bylchau yn y canlyniadau addysgol rhwng plant a phobl ifanc o aelwydydd incwm isel a'u cyfoedion. Ym mis Medi eleni, bu'r Comisiynydd yn hwyluso cyfnewidfa dystiolaeth, oedd yn gyfle i weithwyr addysg proffesiynol oedd â chyfrifoldeb arweiniol am les a chynhwysiad disgyblion gwrdd â chydweithwyr o bob rhan o Gymru am y tro cyntaf, er mwyn rhannu arfer da a chanfod unrhyw rwystrau i gynnal lles dysgwyr sydd o dan anfantais.

Un neges gref o'r gyfnewidfa dystiolaeth oedd bod polisi cenedlaethol, sbardunau perfformiad a phrosesau arolygu i gyd yn canolbwyntio i raddau helaeth ar gyrhaeddiad, heb roi pwysau digonol ar faterion lles. Mae'r dystiolaeth a ddarparwyd trwy'r gyfnewidfa yn awgrymu nad yw'r ffocws cul a geir ar hyn o bryd ar gyrhaeddiad yn y cyfnodau allweddol a lefelau presenoldeb o reidrwydd yn darparu darlun ystyrlon o'r ysgolion hynny sy'n cyflawni o ran cefnogi plant i gyrraedd eu potensial addysgol, yn unol ag Erthygl 29 o CCUHP. Mae'r Comisiynydd wedi rhannu'r dystiolaeth hon gyda Llywodraeth Cymru a chyda Phwyllgor Plant a Phobl Ifanc y Cynulliad Cenedlaethol.

Darparwyd ystod eang o enghreifftiau o ymarfer yn ogystal, oedd yn cynnwys y canlynol:

- **Defnyddio rhaglenni/offer penodol gyda ffocws ar lythrennedd a lles cymdeithasol ac emosiynol.**
- **Dulliau ymarfer adferol.**
- **Arloesedd yn null y gwasanaethau lles addysg o weithredu gyda phartneriaid a'u dull o ymgysylltu â theuluoedd.**
- **Gwaith ymgysylltu â theuluoedd.**
- **Gwaith amlasiantaeth, yn cynnwys dulliau'r Tîm o Gwmpas y Teulu.**
- **Gweithio gyda rhaglenni eraill megis Dechrau'n Deg a Cymunedau yn Gyntaf.**
- **Datblygu offer asesu a monitro i gael gwybod am les disgyblion a chynllunio ar gyfer anghenion dysgu unigol a chefnogaeth ar lefel yr ysgol.**

Cyhoeddodd awdurdodau lleol eu Cynlluniau Integredig Sengl eleni. Y Cynlluniau hyn yw canlyniad polisi Llywodraeth Cymru a luniwyd i symleiddio'r dull o ymdrin â chynllunio integredig a phartneriaethau. Gellir cyflawni'r dyletswyddau yng nghyswllt cyhoeddi Strategaeth Tlodi Plant a Chynllun Plant a Phobl Ifanc (a nifer o gynlluniau eraill) trwy'r Cynllun Integredig Sengl. Mae dros ddau draean o awdurdodau lleol wedi cynnwys cau'r bwlch yn y canlyniadau addysgol rhwng plant o aelwydydd incwm isel a'u cyfoedion fel mater canolog ar gyfer gweithredu yn eu Cynllun.

Mae rôl allweddol i addysg wrth gynnal lles plant a phobl ifanc fel eu bod yn gallu cyflawni eu potensial, yn ogystal â sicrhau gwell cyrhaeddiad addysgol yng Nghymru. Mae tystiolaeth gref y bydd yr ymgyrch i sicrhau cyrhaeddiad uwch yn elwa o ffocws clir ar les y dysgwyr.

**Bydd y Comisiynydd Plant yn gwneud gwaith pellach i ledaenu'r dystiolaeth mae wedi ei chasglu a chefnogi rhannu arfer da o ran y dulliau o gynnal lles disgyblion yn achos dysgwyr sydd o dan anfantais.**

## Nod 3: mwynhau'r iechyd corfforol, meddyliol, cymdeithasol ac emosiynol gorau posibl

Eglurodd y Comisiynydd Plant pa mor bwysig, yn ei farn e, yw'r safonau a geir yn y Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol (FfGC) ar gyfer Plant, Pobl Ifanc a Gwasanaethau Mamolaeth yn ei Strategaeth Tlodi Plant. Fodd bynnag, mae statws cyfredol y Fframwaith yn dal heb fod yn eglur iddo, gan na ddarparwyd gwybodaeth bellach yng nghyswllt adolygiad arfaethedig Llywodraeth Cymru o'r FfGC.

Yn gynharach eleni bu Llywodraeth Cymru'n adrodd ar eu cynnydd yn erbyn uchelgeisiau eu Rhaglen Lywodraethu. Mae'r adroddiad cynnydd yn nodi'r gwaith sy'n digwydd i weithredu rhaglen 'Cynllun Gwên' er mwyn hybu iechyd da yn y geg ymhlith plant mewn ardaloedd difreintiedig. Hefyd lansiwyd nifer o ymgyrchoedd iechyd cyhoeddus. Mae ychydig o dan ddau draean o awdurdodau lleol wedi nodi lleihau anghydraddoldebau iechyd fel cam gweithredu yng nghyswllt eu gwaith i fynd i'r afael â thlodi plant a chyflawni ym maes iechyd a lles, fel y nodwyd yn y Cynlluniau Integredig Sengl y maent wedi'u cyhoeddi eleni.

Mae'r dystiolaeth yn awgrymu cyfatebiaeth rhwng perygl uwch o broblemau ymddygiad ac emosiynol ymhlith plant a phobl ifanc (yn enwedig bechgyn) a thlodi plant. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y strategaeth genedlaethol oed-gynhwysol 'Law yn Llaw at Iechyd Meddwl' ym mis Hydref 2012. Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi cynnwys plant a phobl ifanc yn y strategaeth a chamau penodol yn y cynllun cyflawni fel datblygiad sy'n gwneud Erthygl 24 o CCUHP (hawl plant i ofal iechyd o ansawdd da) yn fwy effeithiol. Fodd bynnag, mae'r Comisiynydd Plant wedi dadlau y gallai colli strategaeth genedlaethol unigryw, ar wahân ar gyfer plant a phobl ifanc, o bosibl, wanhau'r sylw a roddir i fwriadau CCUHP. Mae'r Cynllun Cyflawni sy'n cyd-fynd â'r Strategaeth yn cynnwys nifer o gamau gweithredu er mwyn cefnogi lles emosiynol plant a phobl ifanc mewn lleoliadau addysg a thrwy raglenni teulu sydd eisoes yn bodoli (megis Dechrau'n Deg a Teuluoedd yn Gyntaf).

**Bydd y Comisiynydd Plant yn monitro'r dystiolaeth ynghylch gweithredu mentrau a nodwyd yn y Rhaglen Lywodraethu a chynllun cyflawni 'Law yn Llaw at Iechyd Meddwl'. Bydd hefyd yn ceisio casglu tystiolaeth ynghylch y materion iechyd sy'n bwysig i blant a phobl ifanc sy'n byw mewn ardaloedd difreintiedig.**

## Nod 4: gallu cyrchu cyfleoedd chwarae, hamdden, chwaraeon a diwylliannol

Yn ei Strategaeth Tlodi Plant cyflwynodd y Comisiynydd Plant y manteision y ceir tystiolaeth ohonynt yn sgîl cael mynediad i weithgareddau chwarae, hamdden, chwaraeon a diwylliannol. Mae plant a phobl ifanc o aelwydydd incwm isel yn aml yn cael eu cyfyngu o ran eu gallu i gyrchu chwarae strwythuredig a chyfleoedd hamdden oherwydd costau mynediad a thrafnidiaeth. Mae plant anabl mewn mwy o berygl o dyfu i fyny mewn tlodi na'u cyfoedion ac maent yn wynebu rhwystrau ychwanegol yng nghyswllt mynediad i gyfleoedd chwarae, hamdden a chwaraeon sy'n gallu ymateb i'w hanghenion.

### Asesiadau Digonolrwydd Chwarae

Ymrwymodd y Comisiynydd Plant i adolygu canlyniadau gweithredu Dyletswydd Digonolrwydd Chwarae Llywodraeth Cymru (a gyflwynwyd trwy'r Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru), 2010), gyda ffocws arbennig ar blant a phobl ifanc o gymunedau ac aelwydydd difreintiedig ac ar blant a phobl ifanc anabl. Seiliwyd y ddyletswydd hon ar Reoliadau sy'n nodi pa faterion sydd i gael eu cymryd i ystyriaeth wrth asesu a oes gan awdurdod lleol gyfleoedd chwarae (a hamdden) digonol ar gyfer plant a phobl ifanc yn ei ardal, a chyhoeddwyd yr Asesiadau Digonolrwydd Chwarae yn gynharach eleni.

Mae'r Asesiadau hyn yn amlygu nifer o faterion. Roedd awdurdodau lleol mewn sefyllfa i ganfod data ynghylch nifer y plant a'r bobl ifanc o aelwydydd incwm isel yn eu hardal, a nododd y mwyafrif yr un ffynonellau data, er i rai nodi bod angen gwaith pellach i ddidoli'r data hwn yn ôl oed a/neu i gyfuno gwahanol ffynonellau data. Mae'r Asesiadau'n awgrymu bod casglu data yng nghyswllt nifer y plant a'r bobl ifanc anabl mewn unrhyw awdurdod penodol yn fwy problematig. Nid ymddengys bod dull cyson o wneud hyn. Y Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (PLASC) oedd y ffynhonnell ddata a nodwyd amlaf, a dilynwyd hynny gan gofrestru ar gofrestrau gwirfoddol neu fynegeion anabledd a gedwir gan y Gwasanaethau Plant. Fodd bynnag, nododd nifer o awdurdodau anawsterau sicrhau data dibynadwy ynghylch nifer y plant a'r bobl ifanc anabl y dylid cynllunio ar eu cyfer yn eu hawdurdodau. Mae angen edrych ar y mater hwn ar lefel genedlaethol.

O ran y ddarpariaeth gyfredol y dull mwyaf cyffredin i awdurdodau lleol ddarparu gwybodaeth ynghylch gweithgareddau di-gost neu gost isel oedd trwy'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd (FIS). Mae gan rai

awdurdodau FIS sydd eisoes yn gwneud hyn, ac roedd rhai yn cynnwys cam gweithredu i'w FIS wneud hyn yn y dyfodol. Nododd ardaloedd eraill ddulliau megis llyfrynnau haf. Adroddodd nifer bychan o ardaloedd fod y ddarpariaeth ddi-gost/cost isel o dan fygythiad oherwydd y newidiadau cyllido. **Byddai'r Comisiynydd Plant yn hoffi gweld ysgolion a lleoliadau addysg eraill yn cael eu nodi fel lleoedd lle gall plant a phobl ifanc gael gwybodaeth am y gweithgareddau di-gost a chost isel sydd ar gael yn eu hardaloedd, a bydd yn codi'r mater hwn gyda Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol.**

Nododd llawer o awdurdodau lleol yr angen am welliannau i'r dull o gadw a rhannu gwybodaeth am leoliadau di-dâl neu gost isel fel safleoedd ar gyfer darparu chwarae am ddim, er bod systemau ar waith eisoes gan rai. Gall y costau trafnidiaeth rwystro plant a phobl ifanc rhag manteisio ar gyfleoedd chwarae a hamdden. Mae nifer bach o awdurdodau'n cynnig rhyw fath o gymhorthdal trafnidiaeth er mwyn cynnal mynediad, ond yn achos y mwyafrif o awdurdodau, nodwyd bod y cyllid ar gyfer hyn yn achosi anawsterau.

Mae'r ddarpariaeth o gyfleoedd chwarae a hamdden ar gyfer plant a phobl ifanc anabl, yr adroddir amdani yn yr Asesiadau, yn amrywiol. Nododd nifer bach o awdurdodau'r angen am weithredu i wella'r ddarpariaeth gyfredol yn eu hardal. Mae llawer o awdurdodau'n cynnig ystod o hyfforddiant ar gyfer staff, systemau cyfeillio, a mesurau i gefnogi chwarae cynhwysol, gyda rhai'n darparu cyfleoedd arbenigol ar wahân yn ogystal. Adroddodd rhai awdurdodau eu bod yn defnyddio cyllid Teuluoedd yn Gyntaf i gynnal mynediad i gyfleoedd chwarae ar gyfer plant a phobl ifanc anabl, ond soniodd eraill am y diffyg sicrwydd ariannol fel problem. Mae gan rai awdurdodau brosesau atgyfeirio amlasiantaeth clir yn eu lle i ystyried anghenion plant a phobl ifanc anabl yn unigol, a darpariaeth chwarae ar eu cyfer. Mae rhai awdurdodau'n sefyll allan oherwydd eu bod yn darparu tystiolaeth o fframwaith polisi ac ymarfer sydd wedi'i gyfeirio'n bendant at gyflawni hawl plant a phobl ifanc anabl i gael cyfleoedd ar gyfer chwarae, hamdden, adloniant a chwaraeon (Erthygl 31, CCUHP). Mae'r Asesiadau Digonolrwydd Chwarae hefyd yn awgrymu bod awdurdodau yn fwy tebygol o fedru darparu trafnidiaeth ar gyfer plant a phobl ifanc anabl i gyrchu'r ddarpariaeth, er y gall hynny gael ei gyfyngu i blant a phobl ifanc sy'n derbyn gwasanaethau penodol neu sydd ag anghenion arbennig. **Bydd y Comisiynydd Plant yn rhannu gyda Llywodraeth Cymru ei farn y byddai'n llesol datblygu trefn o rannu ymarfer, fel bod yr awdurdodau sy'n gwneud yn dda o ran darparu cyfleoedd i blant a phobl ifanc anabl fwynhau chwarae yn gallu rhoi arweiniad i'r rhai y mae angen iddynt ddatblygu eu darpariaeth ymhellach.**

## Diwylliant

Mae tystiolaeth bod dysgu trwy'r celfyddydau a diwylliant yn gwella cyrhaeddiad ym mhob pwnc. Mae cyfranogiad mewn gweithgareddau celfyddydau strwythuredig yn cynyddu galluoedd gwybyddol, ac rydyn ni'n gwybod bod myfyrwyr o deuluoedd incwm isel sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau celfyddydol yn aml yn cael mwy o lwyddiant mewn addysg uwch. Ar hyd y flwyddyn, mae'r Comisiynydd wedi bod yn brysur yn cefnogi digwyddiadau sy'n canolbwyntio ar gynyddu cyfranogiad plant a phobl ifanc mewn cyfleoedd diwylliannol ac artistig, ac yn arbennig yn hyrwyddo gwaith sy'n digwydd i estyn cyfranogiad i blant a phobl ifanc sydd o dan anfantais. Mae hyn wedi cynnwys cefnogaeth barhaus i'r datblygiadau sydd ar y gweill yn Amgueddfa Genedlaethol Cymru yng nghyswllt eu Strategaeth Tlodi Plant.

**Hybu arfer da – sicrhau bod plant a phobl ifanc sy'n byw mewn perygl tlodi yn gallu gwireddu eu hawl i gyfleoedd chwarae, hamdden a chwaraeon**

**Play Our Way:** Cynhaliodd Mencap brosiect a ariannwyd gan Plant mewn Angen i wella mynediad i gyfleoedd hamdden ar gyfer pobl ifanc ag anabledd dysgu. Mewn gwahanol rannau o Gymru, maen nhw wedi helpu i hyfforddi pobl ifanc ag anabledd dysgu i fod yn llysgenhadon i'r prosiect, a'u cefnogi i gymryd rhan mewn gwahanol weithgareddau hamdden lleol. Wrth gymryd rhan, bu'r llysgenhadon yn asesu pa mor hwylus yw'r gweithgareddau hamdden i bobl ifanc ag anabledd dysgu, a sut mae eu gwella. Daeth staff a phobl ifanc o'r prosiect Play Our Way i gwrdd â'r Comisiynydd Plant i ddweud wrtho am y pethau y maen nhw'n meddwl ddylai newid i wella cyfleoedd chwarae, hamdden a chwaraeon i blant a phobl ifanc anabl. Mae 8 neges allweddol gan y bobl ifanc:

- **Dylai pob disgybl elwa o gynllun 5 x 60 Llywodraeth Cymru.**
- **Maen nhw eisiau gweld mwy o gyfleoedd i gymryd rhan mewn chwaraeon sydd ddim yn gystadleuol.**
- **Dylai marc ansawdd hygyrchedd gael ei arddangos mewn lleoliadau hamdden a chlybiau.**
- **Fe hoffen nhw weld cyfeirlyfr canolog, hygyrch o glybiau arbenigol, cynhwysol a phrif ffrwd.**
- **Dylai taliadau uniongyrchol fod ar gael i grwpiau o ffrindiau, yn ogystal ag unigolion.**
- **Dylai disgyblion ag anghenion addysgol arbennig (AAA) gael eu cefnogi i gymryd rhan mewn unrhyw glybiau ysgol.**
- **Dylai darparwyr hamdden dderbyn hyfforddiant ymwybyddiaeth person-ganolog o anabledd.**
- **Dylai pob disgybl gael cyfle i fynd ar deithiau dros nos.**

## Nod 5: cael eu trin â pharch a chael cydnabod eu hil a'u hunaniaeth ddiwylliannol

Yn ei Strategaeth Tlodi Plant nododd y Comisiynydd Plant ym mha ffyrdd y gall plant a phobl ifanc sydd o dan anfantais wynebu rhwystrau i gyfranogiad. **Trwy beilota'i Gynllun Llysgenhadon Cymunedol mae'n eglur, o gael cyfleoedd hyblyg i fynegi barn mewn lleoliadau cymunedol y maen nhw'n ymddiried ynddynt, y gall plant a phobl ifanc ymarfer eu hawliau o dan Erthygl 12 o CCUHP mewn ffordd sy'n gallu helpu llunwyr penderfyniadau i ddeall y materion sydd o bwys iddyn nhw.** Mae nifer o ardaloedd clwstwr Cymunedau yn Gyntaf eisoes wedi mynegi diddordeb mewn bod yn rhan o gyflwyniad graddol y cynllun o fis Mawrth 2014 ymlaen.

Roedd hiliaeth a chamwahaniaethu'n faterion pwysig i'r plant a'r bobl ifanc sydd eisoes wedi adrodd yn ôl i'r Comisiynydd fel Llysgenhadon Cymunedol. **Mae'r Comisiynydd Plant wedi rhannu canfyddiadau'r cynllun peilot hyd yma gyda Llywodraeth Cymru, a bydd yn gweithio i ganfod ffyrdd o hybu newid cadarnhaol i blant a phobl ifanc sy'n dioddef effaith hiliaeth a mathau eraill o gamwahaniaethu.**

## Nod 6: cael cartref a chymuned diogel

Mae'r Comisiynydd Plant wedi codi pryderon ynghylch y niferoedd cynyddol o aelwydydd sy'n cael eu derbyn fel rhai digartref a'r effaith sydd i ddod yn sgîl newidiadau i'r rheolau budd-dal tai o dan ddiwygiadau lles Llywodraeth y DU o ran cynnydd pellach yn y ffigurau digartrefedd. Mae tystiolaeth a roddwyd iddo gan Shelter Cymru ac eraill yn awgrymu bod newidiadau i'r system fudd-daliadau, o'u cyfuno â'r 'dreth ystafelloedd gwely' eisoes yn cael effaith sylweddol a niweidiol ar deuluoedd yng Nghymru. Mae gan y Comisiynydd Plant bryderon difrifol ynghylch effeithiau'r newidiadau hyn i'r system les ar lesiant plant a phobl ifanc yng Nghymru.

**Mae'r Comisiynydd Plant, felly, wedi croesawu'r ymrwymiad yn Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru 'Cartrefi i Gymru: Papur Gwyn ar gyfer Bywydau Gwell a Chymunedau Gwell' i ddileu digartrefedd teuluoedd erbyn 2019, ac mae wedi galw ar Lywodraeth Cymru i wneud ymrwymiad tebyg i ddileu digartrefedd pobl ifanc erbyn 2019.**

Yn ei Strategaeth Tlodi Plant ymrwymodd y Comisiynydd Plant i ymgysylltu â'r Comisiynwyr Heddlu a Throsedd newydd yng Nghymru i dynnu eu sylw at yr effaith gadarnhaol y gall dulliau datblygu cymunedol sy'n cynnwys plant a phobl ifanc yn uniongyrchol ei chael ar wella diogelwch cymunedol. Bu'r Comisiynydd Plant yn cwrdd â phob un o'r Comisiynwyr Heddlu a Throsedd yn gynharach eleni, a chafodd gyfle i rannu tystiolaeth mewn ffordd ddefnyddiol ynghylch dulliau datblygu cymunedol. Bydd y Comisiynydd Plant yn parhau i ymgysylltu â'r Comisiynwyr Heddlu a Throsedd ynghylch y materion hyn. **Bydd y Comisiynydd Plant hefyd yn rhannu gyda nhw faterion sy'n ymwneud â diogelwch cymunedol ac yn arbennig effaith cyffuriau a hiliaeth y rhoddodd ei Lysgenhadon Cymunedol wybod iddo amdanynt.**

# Nod 7: heb gael eu rhoi o dan anfantais gan dlodi

Mae'r ffaith bod Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno proses y Cynllun Integredig Sengl dan arweiniad Byrddau Gwasanaethau Lleol ym mhob awdurdod yn golygu bod modd bellach i'r dyletswyddau o ran cynhyrchu Strategaeth Tlodi Plant gael eu cyflawni trwy gynhyrchu'r Cynllun hwnnw. Mae'r Comisiynydd Plant wedi asesu'r Cynlluniau a gyhoeddwyd gan awdurdodau lleol yn gynharach eleni o ran i ba raddau maent yn arddangos ymrwymiad i drechu tlodi plant. Mae'r Comisiynydd Plant yn croesawu'r ffaith bod mwyafrif y cynlluniau'n cynnwys ffocws clir ar dlodi plant a chamau i leihau nifer y plant sydd mewn tlodi, gan gynnwys camau i leihau effaith tlodi plant ar ganlyniadau addysg a iechyd. Mae nifer bach o'r cynlluniau yn canolbwyntio ar dlodi, ond heb roi blaenoriaeth benodol i dlodi plant. Serch hynny, mae Comisiynydd Plant Cymru yn siomedig mai dim ond rhyw draean o'r cynlluniau hyn sy'n cyfeirio at CCUHP a/neu 7 Nod Craidd Llywodraeth Cymru. Mae'r Comisiynydd Plant wedi cyflwyno'i safbwynt o ran yr angen am ddull tlodi plant ar wahân sy'n rhoi'r plentyn yng nghanol yr holl fesurau polisi ac yn cydnabod y plentyn fel deilydd hawliau, gyda hawliau sy'n estyn y tu hwnt i'r teulu, yn unol â CCUHP. **Bydd y Comisiynydd Plant yn monitro gweithrediad y Cynlluniau Integredig Sengl a'u heffaith ar dlodi plant yn ystod gweddill ei dymor yn y swydd.**

Defnyddiodd y Comisiynydd ei Strategaeth Tlodi Plant i gyflwyno ei bryderon ynghylch tlodi bwyd a'i effaith ar blant a phobl ifanc yng Nghymru. Cyflwynwyd y Gorchymyn Ciniawau Ysgol a Llaeth am Ddim (Credyd Cynhwysol) (Cymru) 2013 gan Lywodraeth Cymru fis diwethaf, ac mae'n pennu bod yr hawl i dderbyn prydau ysgol am ddim yn dibynnu ar a yw person neu eu rhiant yn derbyn credyd cyffredinol ar 6 Medi 2013 neu wedi hynny. **Mae'r Comisiynydd Plant wedi codi mater trechu tlodi bwyd yn ystod gwyliau'r ysgol gyda Llywodraeth Cymru, ac mae wedi cael ar ddeall bod Llywodraeth Cymru'n ystyried mesurau y gellir eu rhoi ar waith i fynd i'r afael â hyn.**

Llywodraeth y DU sy'n rheoli'r systemau treth a budd-daliadau o hyd, ac mae'r rhain yn ffactorau allweddol yng nghyswllt trechu tlodi plant. Mae Comisiynydd Plant Cymru yn cwrdd yn rheolaidd â Chomisiynwyr Plant eraill y DU. **Mae Comisiynwyr Plant y pedair gwlad wedi nodi tlodi plant fel mater allweddol ar gyfer gweithredu, a byddant yn parhau i gydweithio i gynyddu ymwybyddiaeth o effaith tlodi ar blant a phobl ifanc gyda Llywodraeth y DU yn San Steffan.**

## Parhau i godi llais a hyrwyddo'r angen am ddull seiliedig ar hawliau o drechu tlodi plant yng Nghymru.

Trwy ei adroddiad blynyddol a thrwy ei Strategaeth Tlodi Plant a'i adroddiadau cynnydd, bydd Comisiynydd Plant Cymru yn parhau i godi llais a hyrwyddo'r angen am ddull seiliedig ar hawliau o drechu tlodi plant yng Nghymru. Mae'r Comisiynydd Plant hefyd yn cael cyfarfodydd rheolaidd gyda Llywodraeth Cymru ynghylch tlodi plant, ac mae'n defnyddio'r cyfarfodydd hyn i graffu o bersbectif seiliedig ar hawliau. Yn gynharach eleni cyhoeddodd **Rhwydwaith Gwrthdlodi Ewrop a Eurochild** 'nodyn esboniadol ar dlodi plant yn yr Undeb Ewropeaidd'. Mae'r cyhoeddiad hwn yn nodi 7 mantais dull seiliedig ar hawliau wrth drechu tlodi plant a hyrwyddo lles.

**7 mantais dull seiliedig ar hawliau wrth drechu tlodi plant a hyrwyddo lles**

1. **Mae'n allweddol i atal tlodi plant. Os caiff hawliau pob plentyn eu parchu a'u galluogi, mae plant yn annhebygol o fyw mewn tlodi.**

2. **Mae'n rhoi anghenion y plentyn yn y canol wrth lunio polisi. Mae ymdrin ag anghenion plant yn dod yn rhwymedigaeth wleidyddol graidd, yn hytrach na dewis polisi posib.**

3. **Mae'n rhoi'r ffocws ar ymdrin ag anghenion penodol y plentyn yn awr, yn y fan hon, yn ogystal â gwella sefyllfa'u teuluoedd a'r cymunedau lle maent yn byw.**

4. **Mae'n darparu fframwaith defnyddiol ar gyfer datblygu strategaeth gynhwysfawr i atal a lleihau tlodi plant. Mae hyn yn amlwg iawn mewn gwledydd fel Sweden, sy'n rhoi pwyslais cryf iawn ar hawliau plant, ac a fu, o ganlyniad, yn llwyddiannus iawn yn atal tlodi plant ac eithrio cymdeithasol.**

5. **Mae'n cysylltu lles plant â lles rhieni a theuluoedd ac yn gwneud cefnogaeth i deuluoedd yn ganolog i bolisïau trechu tlodi plant. Er enghraifft, mae CCUHP yn cydnabod y dylai'r plentyn, er mwyn datblygu ei p(h)ersonoliaeth yn llawn ac yn gydweddus, dyfu i fyny mewn amgylchedd teulu, mewn awyrgylch o hapusrwydd, cariad a dealltwriaeth.**

6. **Mae'n rhoi ffocws ar bwysigrwydd mabwysiadu a gorfodi deddfwriaeth gwrth-wahaniaethu gref fel elfen hanfodol o atal a lleihau tlodi ac eithrio cymdeithasol.**

7. **Mae'n pwysleisio hawl y plant i gael eu clywed ac i fod yn rhan o'r**

## Targedu gwaith trwy swyddogaethau fel y rhaglenni Llysgenhadon, ymgyrch See Me/ Dyma Fi, a thrwy'r cynllun gwaith blynyddol ar ymdrin â materion cydraddoldeb sosio-economaidd ar gyfer plant a phobl ifanc.

### Cyngor a Chymorth

Yn ystod 2013 bu tîm Cyngor a Chymorth Comisiynydd Plant Cymru yn gweithredu'r camau a nodwyd yn y Strategaeth Tlodi Plant, trwy ddefnyddio cyfathrebu wedi'i dargedu ac ymweliadau â Rheolwyr Clystyrau Cymunedau yn Gyntaf i gynyddu ymwybyddiaeth o'r gwasanaeth. Er mai'r targed a osodwyd ar gyfer y tîm oedd ymweld â 25% o'r ardaloedd clwstwr ym mis Hydref 2012, gohiriwyd y cyfathrebu tan fis Ionawr 2013, pryd y cyhoeddwyd yr ardaloedd clwstwr newydd, a phenodi rheolwyr. Llwyddodd swyddogion y Comisiynydd Plant i gwrdd â 5 o'r ardaloedd clwstwr, sef Glyn Ebwy, Bro Morgannwg, Abertawe, Conwy a Gwynedd, ac felly gyrraedd y targed, sef 25% o'r ardaloedd clwstwr. Roedd teimlad cyffredinol bod yr holl gyfarfodydd yn rhai cadarnhaol, ac roedd timau'r clystyrau'n ddiolchgar i ddysgu mwy am wasanaeth Cyngor a Chymorth y Comisiynydd Plant, sy'n gallu cynnig ffynhonnell annibynnol o wybodaeth i gefnogi plant a phobl ifanc, rhieni, gofalwyr a'r bobl broffesiynol sy'n eu cefnogi. Roedd gan bob ardal ddiddordeb arbennig mewn ymgysylltu â'r cynllun Llysgenhadon Cymunedol, ac fe fuon nhw'n nodi diddordeb mewn cael eu cynnwys yn y dyfodol. Er mwyn mwyafu ymgysylltiad yn y dyfodol, mae cynlluniau i gynnal cyfarfodydd rhanbarthol gyda rheolwyr, yn ogystal â mynd i'r Gynhadledd Cymunedau yn Gyntaf flynyddol i gynnal gweithdy.

### Llysgenhadon Gwych

Mae llysgenhadon ysgol y Comisiynydd Plant wedi chwarae rhan hanfodol yng ngwaith cyfranogiad ei swyddfa yn ystod y 7 mlynedd diwethaf. Disgyblion blwyddyn 6 yw'r Llysgenhadon, sy'n cael eu hethol gan eu cyfoedion, ac sy'n gyfrifol am y dasg o gynyddu ymwybyddiaeth am y Comisiynydd Plant a hawliau plant, a amlinellir yn CCUHP, yn eu hysgolion. Mae'r arweinyddion lles disgyblion a chynhwysiad yn yr awdurdodau lleol a gyfrannodd at y gyfnewidfa dystiolaeth ynghylch lles disgyblion a dysgwyr o dan anfantais wedi cytuno i gefnogi'r Comisiynydd i annog ysgolion i chwarae rhan yn y cynllun Llysgenhadon Gwych. Mae hyn yn rhan o waith ehangach sy'n cael ei wneud gan Swyddogion Cyfranogiad y Comisiynydd Plant i sicrhau bod cynifer o ysgolion â phosib yn manteisio ar y cyfle i fod yn ysgolion cynradd Llysgenhadon Gwych.

### Rhaglen Waith Flynyddol

Mae cyflawni yn erbyn yr ymrwymiadau a wnaed yn Strategaeth Tlodi Plant y Comisiynydd ac adrodd ar y cynnydd a wnaed o ran yr ymrwymiadau hynny yn flynyddol yn un o amcanion craidd cynllun gwaith blynyddol y Comisiynydd Plant. Y cynllun gwaith blynyddol sy'n gyrru gwaith ei swyddfa, ac mae rhaid ymateb i gyfres o amcanion allweddol.

**Yn ystod y 12 mis nesaf bydd Comisiynydd Plant Cymru yn parhau i weithio gyda'r nod o sicrhau cynnydd yn y 3 ymrwymiad allweddol a wnaed yn y Strategaeth Tlodi Plant, a gyflwynir yn yr adroddiad cynnydd hwn. Bydd y Comisiynydd Plant yn cyhoeddi ei adroddiad cynnydd nesaf ar y gwaith hwn ym mis Hydref 2014.**

## Troednodiadau

[1] Households Below Average Income, (2013) Yr Adran Gwaith a Phensiynau

[2] Llywodraeth Cymru, (2013) Dadansoddi effaith diwygiadau lles Llywodraeth y Deyrnas Unedig yng Nghymru – Crynodeb o'r prif ganfyddiadau, Caerdydd:LlC

[3] S. Fitzpatrick et al (2013), The homelessness monitor: Wales 2012, y Sefydliad ar gyfer Ymchwil Tai, Trefol ac Eiddo Tiriog, Prifysgol Heriot-Watt a'r Ganolfan Polisi Tai, Prifysgol Efrog.

[4] JRF, (2013) Monitoring Poverty and Social Exclusion in Wales 2013, York:JRF

[5] http://wales.gov.uk/docs/caecd/research/130314-child-poverty-strategy-wales-baseline-indicators-en.pdf

[6] Swyddfa Cydraddoldebau'r Llywodraeth, The Equality Bill: Duty to reduce socio-economic inequalities, Llundain: Llyfrfa Ei Mawrhydi

[7] http://www.cafamily.org.uk/media/381221/counting_the_costs_2012_full_report.pdf

[8] http://www.endchildpoverty.org.uk/files/Health_consequences_of_Poverty_for_children.pdf

[9] http://www.eapn.eu/en/news-and-publications/publications/eapn-books/towards-children-s-well-being-in-europe-eapn-and-eurochild-s-explainer-on-child-poverty-in-the-eu-is-out

**0808 801 1000 / 80800***
**post@complantcymru.org.uk**

* Tecstiwch ni am ddim (gan ddechrau eich neges â COM)

**@complantcymru**
**www.complantcymru.org.uk**

Ysgrifennwch:
**Comisiynydd Plant Cymru**
**Rhadbost RRGL XLYC BHGC**
**Abertawe SA7 9FS**

Comisiynydd Plant Cymru
Children's Commissioner for Wales